



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2013 Rhif 2493 (Cy. 242)**

**2013 No. 2493 (W. 242)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

**Rheoliadau Halogion mewn Bwyd  
(Cymru) 2013**

**The Contaminants in Food (Wales)  
Regulations 2013**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2394 (Cy.206)). Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer—

1. These Regulations, which apply in relation to Wales, revoke and re-enact with changes the Contaminants in Food (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/2394 (W.206)). They make provision for —

- (a) parhau i weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 76/621/EEC sy'n ymwneud â phennu'r lefel uchaf o asid erwsig mewn olewau a brasterau y bwriedir eu defnyddio fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl ac mewn deunyddiau bwyd sy'n cynnwys olewau neu frasterau a ychwanegwyd (OJ Rhif L202, 28.7.1976, t.35) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 80/891/EEC sy'n ymwneud â dull y Gymuned o benderfynu maint y cynnwys o asid erwsig mewn olewau a brasterau y bwriedir eu defnyddio fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl ac mewn deunyddiau bwyd sy'n cynnwys olewau neu frasterau a ychwanegwyd (OJ Rhif L254, 27.9.1980, t.35); a
- (b) parhau i weithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu'r lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd (OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.5) (“Rheoliad y Comisiwn”).

- (a) the continuing implementation of Council Directive 76/621/EEC relating to the fixing of the maximum level of erucic acid in oils and fats intended as such for human consumption and in foodstuffs containing added oils or fats (OJ No. L202, 28.7.1976, p.35) and of Commission Directive 80/891/EEC relating to the Community method of analysis for determining the erucic acid content in oils and fats intended to be used as such for human consumption and foodstuffs containing added oils or fats (OJ No. L254, 27.9.1980, p.35); and

- (b) the continuing execution and enforcement of Commission Regulation (EC) No. 1881/2006 setting maximum levels for certain contaminants in foodstuffs (OJ No. L364, 20.12.2006, p.5) (“the Commission Regulation”).

2. Mae Rheoliad y Comisiwn wedi ei ddiwygio gan—

2. The Commission Regulation has been amended by—

- (a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1126/2007 (OJ Rhif L255, 29.9.2007, t.14), sy'n ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer tocsinau *Fusarium* mewn indrawn a chynnyrch indrawn;
- (b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 565/2008 (OJ Rhif L160, 19.6.2008, t.20), sy'n

- (a) Commission Regulation (EC) No. 1126/2007 (OJ No. L255, 29.9.2007, p.14), which concerns maximum permitted levels for *Fusarium* toxins in maize and maize products;
- (b) Commission Regulation (EC) No. 565/2008 (OJ No. L160, 19.6.2008, p.20), which

ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer diocsinau a biffenylau polychlorinedig (PCBau) mewn afu pysgod;

- (c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 629/2008 (OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6), sy'n ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer metelau trwm penodol;
- (d) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 105/2010 (OJ Rhif L35, 6.2.2010, t.7), sy'n ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer ochratoxin A;
- (e) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 165/2010 (OJ Rhif L50, 27.2.2010, t.8), sy'n ymwneud â lefelau uchaf ar gyfer aflatoxinau ac â thrin bwydydd penodol y canfyddir eu bod yn cynnwys aflatoxinau uwchlaw'r lefelau hynny;
- (f) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 420/2011 (OJ Rhif L111, 30.4.2011, t.3), sy'n ymwneud â chasglu data am ddigwyddiadau gan Aelod-wladwriaethau;
- (g) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 835/2011 (OJ Rhif L215, 20.8.2011, t.4), sy'n ymwneud â lefelau uchaf ar gyfer hydrocarbonau aromatig polysyclig mewn deunyddiau bwyd;
- (h) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1258/2011 (OJ Rhif L320, 3.12.2011, t.15), sy'n ymwneud â lefelau diwygiedig ar gyfer nitradau mewn llysiau deiliog;
- (i) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1259/2011 (OJ Rhif L320, 3.12.2011, t.18), sy'n ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer diocsinau, biffenylau polychlorinedig (PCBau) o'r math diocsin a PCBau nid o'r math diocsin mewn deunyddiau bwyd;
- (j) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 594/2012 (OJ Rhif L176, 6.7.2012, t.43) sy'n ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer ochratoxin A, PCBau nid o'r math diocsin a melamin mewn deunyddiau bwyd; a
- (k) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1058/2012 (OJ Rhif L313, 13.11.2012, t.14), sy'n ymwneud â lefelau uchaf ar gyfer aflatoxinau mewn ffigys wedi'u sychu.

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu hefyd ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 124/2009 (OJ Rhif L40, 11.2.2009, t.7) ("Rheoliad 124/2009"), sy'n ymwneud â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer ychwanegion penodol at fwyd anifeiliaid, ac sydd weithiau, o dan amgylchiadau penodedig, i'w cael mewn bwyd. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddiwygio gan Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 610/2012 (OJ Rhif L178, 10.7.2012, t.1).

concerns the establishment of a maximum level for dioxins and PCBs (Polychlorinated Biphenyls) in fish liver;

- (c) Commission Regulation (EC) No. 629/2008 (OJ No. L173, 3.7.2008, p.6), which concerns maximum permitted levels for certain heavy metals;
- (d) Commission Regulation (EU) No. 105/2010 (OJ No. L35, 6.2.2010, p.7), which concerns maximum permitted levels for ochratoxin A;
- (e) Commission Regulation (EU) No. 165/2010 (OJ No. L50, 27.2.2010, p.8), which concerns maximum levels for aflatoxins and the treatment of certain foods found to contain aflatoxins in excess of those levels;
- (f) Commission Regulation (EU) No.420/2011 (OJ No. L111, 30.4.2011, p.3), which concerns the collection of occurrence data by Member States;
- (g) Commission Regulation (EU) No. 835/2011 (OJ No. L215, 20.8.2011, p.4), which concerns maximum levels for polycyclic aromatic hydrocarbons in foodstuffs;
- (h) Commission Regulation (EU) No.1258/2011 (OJ No. L320, 3.12.2011, p.15), which concerns revised limits for nitrates in leafy vegetables;
- (i) Commission Regulation (EU) No.1259/2011 (OJ No. L320, 3.12.2011, p.18), which concerns maximum permitted levels for dioxins, dioxin-like PCBs and non dioxin-like PCBs in foodstuffs;
- (j) Commission Regulation (EU) No. 594/2012 (OJ No. L176, 6.7.2012, p. 43) concerning maximum permitted levels of ochratoxin A, non dioxin-like PCBs and melamine in foodstuffs; and
- (k) Commission Regulation (EU) No. 1058/2012 (OJ No. L313, 13.11.2012, p.14), which concerns maximum permitted levels for aflatoxins in dried figs.

3. These Regulations also provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EC) No. 124/2009 (OJ No. L40, 11.2.2009, p.7) ("Regulation 124/2009"), which concerns maximum permitted levels for certain feed additives that may, in specified circumstances, occur in food. This Regulation has been amended by Commission Regulation (EU) No. 610/2012 (OJ No. L178, 10.7.2012, p.1).

4. Mae'r Rheoliadau yn darparu ei bod yn drosedd rhoi ar y farchnad fwydydd penodedig sy'n cynnwys asid erwsig uwchlaw'r lefelau a ganiateir (*rheoliadau 3 a 4*).

5. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ei bod yn drosedd, (ac eithrio mewn achosion penodol sy'n ymwneud â bwyd a roddwyd ar y farchnad cyn dyddiad a bennir yn y ddeddfwriaeth EU berthnasol)—

- (a) rhoi ar y farchnad fwydydd penodol os ydynt yn cynnwys halogion o unrhyw fath a bennir yn Rheoliad y Comisiwn neu yn Rheoliad 124/2009 ar lefelau sy'n uwch na'r rhai a bennir;
- (b) defnyddio bwyd sy'n cynnwys halogion ar lefelau sy'n uwch na'r rhai a ganiateir gan Reoliad y Comisiwn yn gynhwysion wrth gynhyrchu bwydydd penodol;
- (c) cymysgu bwydydd, nad ydynt yn cydymffurfio â'r lefelau uchaf a ragnodir gan Reoliad y Comisiwn neu Reoliad 124/2009, gyda bwydydd sy'n cydymffurfio;
- (d) cymysgu bwydydd y mae Rheoliad y Comisiwn yn ymwneud â hwy ac sydd wedi eu bwriadu i'w bwyta'n uniongyrchol neu fel cynwysyddion bwyd, gyda bwydydd y mae Rheoliad y Comisiwn yn ymwneud â hwy ac sydd wedi eu bwriadu i'w didoli neu i'w trin fel arall cyn eu bwyta;
- (e) dadwenwyno trwy drin yn gemegol fwyd sy'n cynnwys lefelau mycotocsinau dros ben y terfynau a bennir yn Rheoliad y Comisiwn;
- (f) peidio â chydymffurfio â gofynion labelu penodol ar gyfer rhai cnau daear, rhai hadau olew eraill, cynhyrchion sy'n deillio ohonynt a rhai ydau; ac
- (g) rhoi ar y farchnad neu gymysgu bwydydd penodol sy'n cynnwys cocsidiostatau a histomonstatau penodedig dros ben y terfynau a ragnodir (*rheoliad 5*).

6. Yn ychwanegol, mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn darparu ar gyfer cosbau yn dilyn collfarn am drosedd o dan y Rheoliadau hyn (*rheoliad 6*) ac yn pennu'r awdurdodau gorfodi a chymwys (*rheoliad 7*);
- (b) yn darparu ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodedig o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn (*rheoliad 8*);
- (c) yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 (*rheoliad 9*), sy'n cael yr effaith o ddatgymhwyso'r darpariaethau samplu a dadansoddi yn y Rheoliadau hynny, i'r graddau, yn unig, y rheoleiddir y materion

4. The Regulations provide that it is an offence to place specified foods on the market containing erucic acid in excess of permitted levels (*regulations 3 and 4*).

5. The Regulations also provide that it is an offence, (except in certain cases relating to food placed on the market before a date specified in the relevant EU legislation) —

- (a) to place on the market certain foods if they contain contaminants of any kind specified in the Commission Regulation or in Regulation 124/2009 at levels exceeding those specified;
- (b) to use food containing contaminants at levels in excess of those permitted by the Commission Regulation as ingredients in the production of certain foods;
- (c) to mix foods that do not comply with the maximum levels prescribed by the Commission Regulation or Regulation 124/2009 with foods which do comply;
- (d) to mix foods to which the Commission Regulation relates and which are intended for direct consumption or as food ingredients with foods to which the Commission Regulation relates and which are intended to be sorted or otherwise treated prior to consumption;
- (e) to detoxify by chemical treatment food containing mycotoxins in excess of the limits specified in the Commission Regulation;
- (f) to fail to observe particular labelling requirements for certain groundnuts, other oilseeds, derived products thereof and cereals; and
- (g) to place on the market or mix certain foods containing specified coccidiostats and histomonstats in excess of prescribed limits (*regulation 5*).

6. These Regulations additionally—

- (a) provide for penalties on conviction for an offence under these Regulations (*regulation 6*) and specify the enforcement and competent authorities (*regulation 7*);
- (b) provide for the application of specified provisions of the Food Safety Act 1990 for the purposes of these Regulations (*regulation 8*);
- (c) make a consequential amendment to the Food Safety (Sampling and Qualifications) (Wales) Regulations 2013 (*regulation 9*), the effect being to disapply the sampling and analysis provisions of those Regulations only to the

hynny gan yr offerynnau UE a grybwyllir ym mharagraff 7.

7. Mae Rheoliad y Comisiwn yn pennu pa rai o ddulliau'r Undeb Ewropeaidd o samplu a dadansoddi, y mae'n ofynnol eu defnyddio i reoli'n swyddogol lefelau'r sylweddau a gwmpesir yn y Rheoliad. Nodir y dulliau hynny yn—

- (a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 401/2006 sy'n pennu'r dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y lefelau mycotocsinau mewn deunyddiau bwyd (OJ Rhif L70, 9.3.2006, t.12), fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 178/2010 (OJ Rhif L52, 3.3.2010, t.32);
- (b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1882/2006 sy'n pennu dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau nitradau mewn deunyddiau bwyd penodol (OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.25);
- (c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 333/2007 sy'n pennu'r dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y lefelau plwm, cadmiwm, mercwri, tun anorganig, 3-MCPD a benzo(a)pyren mewn deunyddiau bwyd (OJ Rhif L88, 29.3.2007, t.29), fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 836/2011 (OJ Rhif L215, 20.8.2011, t.9); a
- (d) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 252/2012 sy'n pennu'r dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y lefelau diocsinau, PCBau o'r math diocsin a PCBau nid o'r math diocsin mewn deunyddiau bwyd penodol ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1883/2006 (OJ Rhif L84, 23.3.2012, t.1).

8. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

extent that those matters are regulated by the EU instruments mentioned in paragraph 7.

7. The Commission Regulation specifies the European Union methods of sampling and analysis that are required to be used for the official control of levels of the substances covered by it. Those methods are set out in —

- (a) Commission Regulation (EC) No. 401/2006 laying down the methods of sampling and analysis for the official control of the levels of mycotoxins in foodstuffs (OJ No. L70, 9.3.2006, p.12), as amended by Commission Regulation (EU) No. 178/2010 (OJ No. L52, 3.3.2010, p.32);
- (b) Commission Regulation (EC) No. 1882/2006 laying down methods of sampling and analysis for the official control of the levels of nitrates in certain foodstuffs (OJ No. L364, 20.12.2006, p.25);
- (c) Commission Regulation (EC) No. 333/2007 laying down the methods of sampling and analysis for the official control of the levels of lead, cadmium, mercury, inorganic tin, 3-MCPD and benzo(a)pyrene in foodstuffs (OJ No. L88, 29.3.2007, p.29), as amended by Commission Regulation (EU) No. 836/2011 (OJ No. L215, 20.8.2011, p.9); and
- (d) Commission Regulation (EU) No. 252/2012 laying down methods of sampling and analysis for the official control of levels of dioxins, dioxin-like PCBs and non-dioxin-like PCBs in certain foodstuffs and repealing Regulation (EC) No. 1883/2006 (OJ No. L84, 23.3.2012, p.1).

8. The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency at Food Standards Agency Wales, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

**2013 Rhif 2493 (Cy. 242)**

**2013 No. 2493 (W. 242)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

**Rheoliadau Halogion mewn Bwyd  
(Cymru) 2013**

**The Contaminants in Food (Wales)  
Regulations 2013**

*Gwnaed* 27 Medi 2013

*Made* 27 September 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 1 Hydref 2013

*Laid before the National Assembly for Wales*  
1 October 2013

*Yn dod i rym* 31 Hydref 2013

*Coming into force* 31 October 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 17(1) a (2), 26(1)(a) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), fel y'u darllenir ynghyd â pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(3).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1), 17(1) and (2), 26(1)(a) and (3), and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1), and now vested in them(2), as read with paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(3).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Erthygl o'r offerynnau UE a bennir yn rheoliad 2(3), neu Atodiad i'r offerynnau hynny, gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Erthygl neu'r Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to an Article of or Annex to the EU instruments specified in regulation 2(3) to be construed as references to that Article or Annex as it may be amended from time to time.

---

(1) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S. 2004/2990 ac O.S. 2004/3279.

---

(1) 1990 c. 16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), "the 1999 Act". Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act, S.I. 2004/2990 and S.I. 2004/3279.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28) a throsglwyddwyd hwy wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(2) Functions of "the Ministers", so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), and subsequently transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).

(3) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51) a diwygiwyd ef gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (2008 p.7).

(3) 1972 c.68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (2006 c.51) and amended by Part 1 of Schedule 1 to the European Union (Amendment) Act 2008 (2008 c.7).

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

In accordance with section 48(4A) of the Food Safety Act 1990, they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac sy'n pennu gweithdrefnau ynghylch materion diogelwch bwyd(1), cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(1), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

## RHAN 1 Rhagarweiniol

## PART 1 Introductory

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 31 Hydref 2013.

### Title, application and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Contaminants in Food (Wales) Regulations 2013.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and they come into force on 31 October 2013.

### Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “awdurdod bwyd” yr ystyr a roddir i “food authority” gan adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr “Cyfarwyddeb 76/621” (“*Directive 76/621*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 76/621/EEC sy'n ymwneud â phennu'r lefel uchaf o asid erwsig mewn olewau a brasterau a fwriedir fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl ac mewn deunyddiau bwyd sy'n cynnwys olewau neu frasterau a ychwanegwyd(2);

ystyr “Cyfarwyddeb 80/891” (“*Directive 80/891*”) yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/891/EEC sy'n ymwneud â dull y Gymuned o benderfynu maint y cynnwys o asid erwsig mewn olewau a brasterau y bwriedir eu defnyddio fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl ac mewn deunyddiau bwyd sy'n cynnwys olewau neu frasterau a ychwanegwyd(3);

### Interpretation

2.—(1) In these Regulations —

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Food Safety Act 1990;

“Directive 76/621” (“*Cyfarwyddeb 76/621*”) means Council Directive 76/621/EEC relating to the fixing of the maximum level of erucic acid in oils and fats intended as such for human consumption and in foodstuffs containing added oils or fats(2);

“Directive 80/891” (“*Cyfarwyddeb 80/891*”) means Commission Directive 80/891/EEC relating to the Community method of analysis for determining the erucic acid content in oils and fats intended to be used as such for human consumption and in foodstuffs containing added oils or fats(3);

“Regulation 1881/2006” (“*Rheoliad 1881/2006*”) means Commission

(1) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) OJ Rhif L202, 28.7.1976, t.35. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb hon ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 807/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.36).

(3) OJ Rhif L254, 27.9.1980, t.35.

(1) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468/EC with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny – Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

(2) OJ No. L202, 28.7.1976, p.35. This Directive was last amended by Council Regulation (EC) No. 807/2003 (OJ No. L122, 16.5.2003, p.36).

(3) OJ No. L254, 27.9.1980, p.35.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr “Rheoliad 1881/2006” (“*Regulation 1881/2006*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd(1);

ystyr “Rheoliad 629/2008” (“*Regulation 629/2008*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 629/2008 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd(2);

ystyr “Rheoliad 124/2009” (“*Regulation 124/2009*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 124/2009 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer presenoldeb cocsidiostatau neu histomonstatau mewn bwyd o ganlyniad i drosglwyddiad anochel y sylweddau hyn mewn bwydydd anifeiliaid nad ydynt yn darged(3);

ystyr “Rheoliad 165/2010” (“*Regulation 165/2010*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 165/2010 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd o ran aflatocsinau(4);

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, gan awdurdod bwyd, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yng Nghyfarwyddeb 76/621, Cyfarwyddeb 80/891, Rheoliad 1881/2006 neu Rheoliad 124/2009 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag y sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau neu'r Cyfarwyddebau hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl o Gyfarwyddeb 76/621, Cyfarwyddeb 80/891, Rheoliad 1881/2006, Rheoliad 124/2009, neu at Atodiad i'r Cyfarwyddebau neu'r Rheoliadau hynny, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at y

Regulation (EC) No. 1881/2006 setting maximum levels for certain contaminants in foodstuffs(1);

“Regulation 629/2008” (“*Rheoliad 629/2008*”) means Commission Regulation (EC) No. 629/2008 amending Regulation (EC) No 1881/2006 setting maximum levels for certain contaminants in foodstuffs(2);

“Regulation 124/2009” (“*Rheoliad 124/2009*”) means Commission Regulation (EC) No. 124/2009 setting maximum levels for the presence of coccidiostats or histomonstats in food resulting from the unavoidable carry-over of these substances in non-target feed(3);

“Regulation 165/2010” (“*Rheoliad 165/2010*”) means Commission Regulation (EU) No. 165/2010 amending Regulation (EC) No. 1881/2006 setting maximum levels for certain contaminants in foodstuffs as regards aflatoxins(4);

“authorised officer” (“*swyddog awdurdodedig*”) means any person who is authorised in writing, either generally or specially, by a food authority to act in matters arising under these Regulations;

“food authority” (“*awdurdod bwyd*”) has the meaning given by section 5(1A) of the Act.

(2) Any other expression used in these Regulations and in Directive 76/621, Directive 80/891, Regulation 1881/2006 or Regulation 124/2009 has the same meaning in these Regulations as it bears in the Directive or Regulation concerned.

(3) Any reference to an Article of or Annex to Directive 76/621, Directive 80/891, Regulation 1881/2006 or Regulation 124/2009 is a reference to that Article or Annex as it may be amended from time

(1) OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.5. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddiwygio gan Reoliadau'r Comisiwn (EC) Rhifau 1126/2007 (OJ Rhif L255, 29.9.2007, t.14), 565/2008 (OJ Rhif L160, 19.6.2008, t.20), 629/2008 (OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6), 105/2010 (OJ Rhif L35, 6.2.2010, t.7) a 165/2010 (OJ Rhif L50, 27.2.2010, t.8), 420/2011 (OJ Rhif L111, 30.4.2011, t.3), 835/2011 (OJ Rhif L215, 20.8.2011, t.4), 1258/2011 (OJ Rhif L320, 3.12.2011, t.15), 1259/2011 (OJ Rhif L320, 3.12.2011, t.18), 594/2012 (OJ Rhif L176, 6.7.2012, t.43) a 1058/2012 (OJ Rhif L313, 13.11.2012, t.14).

(2) OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6.

(3) OJ Rhif L40, 11.2.2009, t.7. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddiwygio gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 610/2012 (OJ Rhif L178, 10.7.2012, t.1).

(4) OJ Rhif L50, 27.2.2010, t.8.

(1) OJ No. L364, 20.12.2006, p.5. This Regulation has been amended by Commission Regulations (EC) No's 1126/2007 (OJ No. L255, 29.9.2007, p.14), 565/2008 (OJ No. L160, 19.6.2008, p.20), 629/2008 (OJ No. L173, 3.7.2008, p.6), and by Commission Regulations (EU) No's 105/2010 (OJ No. L35, 6.2.2010, p.7), 165/2010 (OJ No. L50, 27.2.2010, p.8), 420/2011 (OJ No. L111, 30.4.2011, p.3), 835/2011 (OJ No. L215, 20.8.2011, p.4), 1258/2011 (OJ No. L320, 3.12.2011, p.15), 1259/2011 (OJ No. L320, 3.12.2011, p.18), 594/2012 (OJ No. L176, 6.7.2012, p.43) and 1058/2012 (OJ No. L313, 13.11.2012, p.14).

(2) OJ No. L173, 3.7.2008, p.6.

(3) OJ No. L40, 11.2.2009, p.7. This Regulation has been amended by Commission Regulation (EU) No. 610/2012 (OJ No. L178, 10.7.2012, p.1).

(4) OJ No. L50, 27.2.2010, p.8.

Cyfarwyddbau neu'r Rheoliadau hynny yn unol â hynny.

(4) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf wedi eu neilltuo—

- (a) gan orchymyn o dan adran 2 neu 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), i awdurdod iechyd porthladd; neu
- (b) gan orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(2), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig;

rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd, i'r graddau y mae'r cyfeiriad yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y'u neilltuwyd iddo felly.

## RHAN 2

### Asid erwsig mewn bwyd

#### Cwmpas

3.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i—

- (a) olewau, brasterau a chymysgeddau o'r ddau, a fwriedir fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl;
- (b) deunyddiau bwyd cyfansawdd a ddisgrifir, naill ai'n uniongyrchol neu drwy oblygiad, fel rhai a baratowyd yn arbennig ar gyfer babanod a phlant ifanc, ac yr ychwanegwyd atynt olewau, brasterau neu gymysgeddau o'r ddau; ac
- (c) deunyddiau bwyd cyfansawdd ac eithrio rhai a ddisgrifir, naill ai'n uniongyrchol neu drwy oblygiad, fel rhai a baratowyd yn arbennig ar gyfer babanod a phlant ifanc, yr ychwanegwyd olewau, brasterau neu gymysgeddau o'r ddau atynt, ac y mae cyfanswm y braster a gynhwysir ynddynt yn fwy na 5%.

(2) Ym mharagraff (1) mae i'r ymadroddion "babanod" a "plant ifanc" yr ystyron a roddir, yn eu trefn, i "infants" a "young children" yn Erthygl 2 o Gyfarwydddeb y Comisiwn 2006/141/EC sy'n ymwneud â fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol, ac yn diwygio Cyfarwydddeb 1999/21/EC(3).

to time, and any reference to any of those Directives or Regulations is to be construed accordingly.

(4) Where any functions under the Act are assigned —

- (a) by an order under section 2 or 7 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), to a port health authority; or
- (b) by an order under section 6 of the Public Health Act 1936(2), to a joint board for a united district;

any reference in these Regulations to a food authority is to be construed, so far as relating to those functions, as a reference to the authority to which they are so assigned.

## PART 2

### Erucic acid in food

#### Scope

3.—(1) This Part applies to —

- (a) oils, fats and mixtures of the two which are intended as such for human consumption;
- (b) compound foodstuffs described directly or by implication as specially prepared for infants and young children, to which oils, fats or mixtures of the two have been added; and
- (c) compound foodstuffs other than those described directly or by implication as specially prepared for infants and young children, to which oils, fats or mixtures of the two have been added and the overall fat content of which exceeds 5%.

(2) In paragraph (1) the expressions "infants" and "young children" have the meanings given to them in Article 2 of Commission Directive 2006/141/EC on infant formulae and follow-on formulae and amending Directive 1999/21/EC(3).

(1) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(2) 1936 p.49; rhaid darllen adran 6 ynghyd â pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(3) OJ Rhif L401, 30.12.2006, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwydddeb y Comisiwn 2013/26/EU (OJ Rhif L158, 10.6.2013, t.376).

(1) 1984 c.22; section 7(3)(d) was substituted by paragraph 27 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

(2) 1936 c.49; section 6 is to be read with paragraph 1 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

(3) OJ No. L401, 30.12.2006, p. 1, last amended by Commission Directive 2013/26/EU (OJ No. L158, 10.6.2013, p.376).



### Rheolaethau ar asid erwsig

4.—(1) Ni chaiff neb roi ar y farchnad, ar gyfer ei fwyta gan y defnyddiwr olaf, gynnyrch y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo a lefel yr asid erwsig ynddo yn uwch na 5%, a gyfrifir fel canran o lefel cyfanswm yr asidau brasterog yn y gydran braster.

(2) Rhaid penderfynu lefel yr asid erwsig mewn bwyd yn unol â'r dulliau sgrinio a dadansoddi a ragnodir yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 80/891 a'r Atodiad i'r Gyfarwyddeb honno.

(3) Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i baragraff (1) yn euog o drosedd.

(4) Ym mharagraff (1) ystyr "defnyddiwr olaf" ("*final consumer*") yw defnyddiwr eithaf deunydd bwyd, na fydd yn defnyddio'r bwyd yn rhan o unrhyw weithrediad neu weithgarwch busnes bwyd.

## RHAN 3

### Halogion mewn bwyd

#### Rheolaethau ar halogion mewn bwyd

5.—(1) Yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a gynhwysir yn—

- (a) Erthygl 11 o Reoliad 1881/2006;
- (b) Erthygl 2 o Reoliad 629/2008; neu
- (c) Erthygl 2 o Reoliad 165/2010,

mae person sy'n mynd yn groes i, neu sy'n methu â chydymffurfio ag, unrhyw un o'r darpariaethau UE a bennir ym mharagraff (2) yn euog o drosedd.

(2) Y darpariaethau UE yw—

- (a) Erthygl 1(1) o Reoliad 1881/2006 (gwaharddiad ar roi ar y farchnad ddeunyddiau bwyd sy'n cynnwys halogion uwchlaw'r terfynau rhagnodedig a gynhwysir yn yr Atodiad), fel y'i darllenir ynghyd ag—
  - (i) Erthygl 1(2) (lefelau uchaf sy'n gymwys i'r rhan fwytadwy o fwyd oni bennir yn wahanol yn yr Atodiad),
  - (ii) Erthygl 2 (darpariaethau ynglŷn â chymhwyso lefelau uchaf i ddeunyddiau bwyd sydd wedi eu sychu, eu gwanedu neu'u prosesu, a deunyddiau bwyd cyfansawdd),
  - (iii) Erthygl 4 (darpariaethau penodol ar gyfer cnau daear, hadau olew eraill, cnau coed, ffrwythau wedi'u sychu, reis ac indrawn),
  - (iv) Erthygl 6 (darpariaethau penodol ar gyfer letys), a

### Controls on erucic acid

4.—(1) No person may place on the market, for consumption by the final consumer, a product to which this Part applies in which the level of erucic acid exceeds 5%, calculated on the total level of fatty acids in the fat component.

(2) The level of erucic acid in a food must be determined according to the methods of screening and analysis prescribed in Article 2 of and the Annex to Directive 80/891.

(3) Any person who contravenes paragraph (1) is guilty of an offence.

(4) In paragraph (1) "final consumer" ("*defnyddiwr olaf*") means the ultimate consumer of a foodstuff who will not use the food as part of any food business operation or activity.

## PART 3

### Contaminants in food

#### Controls on contaminants in food

5.—(1) Subject to the transitional arrangements contained in—

- (a) Article 11 of Regulation 1881/2006;
- (b) Article 2 of Regulation 629/2008; or
- (c) Article 2 of Regulation 165/2010,

a person who contravenes or fails to comply with any of the EU provisions specified in paragraph (2) is guilty of an offence.

(2) The EU provisions are —

- (a) Article 1(1) of Regulation 1881/2006 (prohibition on the placing on the market of foodstuffs containing contaminants in excess of prescribed limits contained in the Annex), as read with —
  - (i) Article 1(2) (maximum levels applying to edible part of food unless otherwise specified in the Annex),
  - (ii) Article 2 (provisions relating to the application of maximum levels to dried, diluted, processed and compound foodstuffs),
  - (iii) Article 4 (specific provisions for groundnuts, other oilseeds, tree nuts, dried fruit, rice and maize),
  - (iv) Article 6 (specific provisions for lettuce), and

- (v) yr Atodiad (lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd);
- (b) Erthygl 3 o Reoliad 1881/2006 (gwaharddiadau ar ddefnyddio, cymysgu a dadwenwyno);
- (c) Erthygl 5 o Reoliad 1881/2006 (gofynion labelu penodol ar gyfer cnau daear, hadau olew eraill, cynhyrchion sy'n deillio ohonynt ac ydau); a
- (d) Erthygl 1(1) o Reoliad 124/2009 (gwaharddiadau ar roi ar y farchnad neu gymysgu bwydydd sy'n cynnwys lefelau o cocsidiostatau a histomonstatau uwchlaw'r terfynau a ragnodir), fel y'i darllenir ynghyd ag Erthygl 1(2).

- (v) the Annex (maximum levels for certain contaminants in foodstuffs);
- (b) Article 3 of Regulation 1881/2006 (prohibitions on use, mixing and detoxification);
- (c) Article 5 of Regulation 1881/2006 (specific labelling requirements for groundnuts, other oilseeds, derived products thereof and cereals); and
- (d) Article 1(1) of Regulation 124/2009 (prohibitions on marketing or mixing foods containing coccidiostats or histomonstats at levels in excess of prescribed limits), as read with Article 1(2).

## RHAN 4

### Gweinyddu a gorfodi

#### Cosbau

6. Mae unrhyw un a geir yn euog o drosedd o dan reoliad 4(3) neu reoliad 5(1) yn atebol, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

#### Gorfodi ac awdurdodau cymwys

7.—(1) Mae dyletswydd ar bob awdurdod bwyd, o fewn ei sir neu'i fwrdeistref sirol, i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn, Rheoliad 1881/2006 a Rheoliad 124/2009.

(2) Yr awdurdod cymwys at ddibenion—

- (a) Erthygl 2(2) o Reoliad 1881/2006 (cyfiawnhau ffactorau crynodi neu wanedu gan weithredwyr busnesau bwyd); a
- (b) Erthygl 1(1) o Reoliad 124/2009 (sy'n ymwneud â'r ddyletswydd o ymchwilio i'r rhesymau am yr halogi),

yw'r awdurdod sydd â'r ddyletswydd o weithredu a gorfodi o dan baragraff (1).

#### Cymhwyso amryw adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

8.—(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

- (a) adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir bwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl);

## PART 4

### Administration and enforcement

#### Penalties

6. Anyone convicted of an offence under regulation 4(3) or regulation 5(1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

#### Enforcement and competent authorities

7.—(1) It is the duty of each food authority within its county or county borough to execute and enforce these Regulations, Regulation 1881/2006 and Regulation 124/2009.

(2) The competent authority for the purposes of —

- (a) Article 2(2) of Regulation 1881/2006 (justification by food business operators of concentration or dilution factors); and
- (b) Article 1(1) of Regulation 124/2009 (relating to the duty to investigate the reasons for the contamination),

is the authority having the duty to execute and enforce under paragraph (1).

#### Application of various sections of the Food Safety Act 1990

8.—(1) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part of it is to be construed as a reference to these Regulations —

- (a) section 3 (presumptions that food intended for human consumption);

- (b) adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall);
- (c) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy)(1) gyda'r addasiad—
  - (i) bod is-adrannau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â throedd o dan reoliad 4(3) neu 5(1) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â throedd o dan adran 14 neu 15, a
  - (ii) yn is-adran (4), yr ystyrir bod y cyfeiriadau at “sale” yn cynnwys cyfeiriadau at “placing on the market”;
- (d) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (e) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);
- (f) adran 33(2), gyda'r addasiad yr ystyrir bod y cyfeiriad at “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r math a grybwyllir yn adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);
- (g) adran 35(1) (cosbi troseddau)(2), i'r graddau y mae'n ymwneud â throeddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);
- (h) adran 35(2) a (3)(3), i'r graddau y mae'n ymwneud â throeddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (f);
- (i) adran 36 (troseddau gan gyrff corfforaethol);
- (j) adran 36A (troseddau gan bartneriaethau Albanaidd)(4); a
- (k) adran 44 (diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddiwyll).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae adran 9 o'r Ddeddf (archwilio ac ymafael mewn bwyd a amheuir) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai'n darllen fel a ganlyn—

“9.—(1) An authorised officer of a food authority may at all reasonable times inspect any food intended for human consumption which has been placed on the market and subsections (2) to (7) below apply where, on such an inspection, it appears to the authorised officer that the placing on the market of any food fails to comply with any of the

- (b) section 20 (offences due to fault of another person);
- (c) section 21 (defence of due diligence)(1) with the modification that—
  - (i) subsections (2) to (4) shall apply in relation to an offence under regulation 4(3) or 5(1) as they apply in relation to an offence under section 14 or 15, and
  - (ii) in subsection (4) the references to “sale” are deemed to include references to “placing on the market”;
- (d) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (e) section 33(1) (obstruction etc. of officers);
- (f) section 33(2), with the modification that the reference to “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” shall be deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in section 33(1)(b) as applied by sub-paragraph (e);
- (g) section 35(1) (punishment of offences)(2), in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by sub-paragraph (e);
- (h) section 35(2) and (3)(3), in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by sub-paragraph (f);
- (i) section 36 (offences by bodies corporate);
- (j) section 36A (offences by Scottish partnerships)(4); and
- (k) section 44 (protection of officers acting in good faith).

(2) Subject to paragraph (3), section 9 of the Act (inspection and seizure of suspected food) applies for the purposes of these Regulations as if it read as follows —

“9.—(1) An authorised officer of a food authority may at all reasonable times inspect any food intended for human consumption which has been placed on the market and subsections (2) to (7) below apply where, on such an inspection, it appears to the authorised officer that the placing on the market of any

---

(1) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.  
 (2) Diwygir adran 35(1) gan baragraff 42 o Atodlen 26 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), o ddyddiad sydd i'w bennu.  
 (3) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.  
 (4) Mewnosodwyd adran 36A gan baragraff 16 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

---

(1) Section 21 was amended by S.I. 2004/3279.  
 (2) Section 35(1) is amended by the Criminal Justice Act 2003 (2003 c.44), Schedule 26, paragraph 42, from a date to be appointed.  
 (3) Section 35(3) was amended by S.I. 2004/3279.  
 (4) Section 36A was inserted by the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), Schedule 5, paragraph 16.

requirements specified in regulation 4(1) or 5(2) of the Contaminants in Food (Wales) Regulations 2013, (“the EU requirements”).

(2) The authorised officer may either —

- (a) give notice to the person in charge of the food that, until the notice is withdrawn, the food or any specified portion of it —
  - (i) is not to be used for human consumption, and
  - (ii) either is not to be removed or is to be removed to a place at which there are facilities to carry out sampling in the manner required by law; or
- (b) seize the food and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace.

(3) Where the authorised officer exercises the power conferred by subsection (2)(a) above, that officer must, as soon as is reasonably practicable and in any event within 21 days, determine whether or not the food complies with the EU requirements and —

- (a) if satisfied that it does comply, shall forthwith withdraw the notice;
- (b) if not so satisfied, shall seize the food and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace.

(4) Where an authorised officer exercises the powers conferred by subsection (2)(b) or (3)(b) above, the officer must inform the person in charge of the food of the intention to have it dealt with by a justice of the peace and —

- (a) any person who in connection with any of the EU requirements might be liable to a prosecution in respect of the food shall, if that person attends before the justice of the peace by whom the food falls to be dealt with, be entitled to be heard and to call witnesses; and
- (b) that justice of the peace may, but need not, be a member of the court before which any person is proceeded against for an offence in connection with any of the EU requirements in relation to that food.

(5) If it appears to a justice of the peace, on the basis of such evidence as the justice considers appropriate in the circumstances, that any food falling to be dealt with under this section fails to comply with any of the EU

requirements specified in regulation 4(1) or 5(2) of the Contaminants in Food (Wales) Regulations 2013, (“the EU requirements”).

(2) The authorised officer may either —

- (a) give notice to the person in charge of the food that, until the notice is withdrawn, the food or any specified portion of it —
  - (i) is not to be used for human consumption, and
  - (ii) either is not to be removed or is to be removed to a place at which there are facilities to carry out sampling in the manner required by law; or
- (b) seize the food and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace.

(3) Where the authorised officer exercises the power conferred by subsection (2)(a) above, that officer must, as soon as is reasonably practicable and in any event within 21 days, determine whether or not the food complies with the EU requirements and —

- (a) if satisfied that it does comply, shall forthwith withdraw the notice;
- (b) if not so satisfied, shall seize the food and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace.

(4) Where an authorised officer exercises the powers conferred by subsection (2)(b) or (3)(b) above, the officer must inform the person in charge of the food of the intention to have it dealt with by a justice of the peace and —

- (a) any person who in connection with any of the EU requirements might be liable to a prosecution in respect of the food shall, if that person attends before the justice of the peace by whom the food falls to be dealt with, be entitled to be heard and to call witnesses; and
- (b) that justice of the peace may, but need not, be a member of the court before which any person is proceeded against for an offence in connection with any of the EU requirements in relation to that food.

(5) If it appears to a justice of the peace, on the basis of such evidence as the justice considers appropriate in the circumstances, that any food falling to be dealt with under this section fails to comply with any of the EU

requirements the justice must condemn the food and order —

- (a) the food to be destroyed or to be so disposed of as to prevent it from being used for human consumption; and
- (b) any expenses reasonably incurred in connection with the destruction or disposal to be defrayed by the owner of the food.

(6) If a notice under subsection (2)(a) above is withdrawn, or the justice of the peace by whom any food falls to be dealt with under this section refuses to condemn it, the food authority must compensate the owner of the food for any depreciation in its value resulting from the action taken by the authorised officer.

(7) Any disputed question as to the right to or the amount of any compensation payable under subsection (6) above must be determined by arbitration.

(8) Any person who knowingly contravenes the requirements of a notice under subsection (2)(a) above is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.”

(3) Mae'r ymadroddion Cymraeg “swyddog awdurdodedig” ac “awdurdod bwyd” sy'n cyfateb, yn eu trefn, i'r ymadroddion Saesneg “authorised officer” a “food authority” a ddefnyddir yn adran 9 o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn yn rhinwedd paragraff (2), yn dwyn, at y dibenion hynny, yr ystyron a ddygir gan yr ymadroddion hynny yn y Rheoliadau hyn.

### Diwygiad canlyniadol

9. Yn Atodlen 1 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013(1) (darpariaethau nad yw'r Rheoliadau hynny'n gymwys iddynt), yn lle'r cofnod sy'n ymwneud â Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2010(2) rhodder y cofnodion canlynol yng ngholofnau 1 a 2 yn eu trefn—

“Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013(i'r graddau y mae sampl yn un sydd i'w ddadansoddi yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu'r lefelau uchaf

O.S. 2013/----.”

requirements the justice must condemn the food and order —

- (a) the food to be destroyed or to be so disposed of as to prevent it from being used for human consumption; and
- (b) any expenses reasonably incurred in connection with the destruction or disposal to be defrayed by the owner of the food.

(6) If a notice under subsection (2)(a) above is withdrawn, or the justice of the peace by whom any food falls to be dealt with under this section refuses to condemn it, the food authority must compensate the owner of the food for any depreciation in its value resulting from the action taken by the authorised officer.

(7) Any disputed question as to the right to or the amount of any compensation payable under subsection (6) above must be determined by arbitration.

(8) Any person who knowingly contravenes the requirements of a notice under subsection (2)(a) above is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.”

(3) The expressions “authorised officer” and “food authority” which are used in section 9 of the Act so far as it applies for the purposes of these Regulations by virtue of paragraph (2), will, for those purposes, bear the meanings that those expressions respectively bear in these Regulations.

### Consequential amendment

9. In Schedule 1 to the Food Safety (Sampling and Qualifications) (Wales) Regulations 2013(1) (provisions to which those Regulations do not apply), for the entries relating to the Contaminants in Food (Wales) Regulations 2010(2) substitute the following entries in column 1 and 2 respectively —

“The Contaminants in Food (Wales) Regulations 2013 (to the extent that a sample falls to be prepared and analysed in accordance with Commission Regulation (EC) No. 1881/2006 setting maximum levels for

S.I. 2013/----.”

(1) O.S. 2013/479 (Cy.55).  
(2) O.S. 2010/2394 (Cy.206).

(1) S.I. 2013/479 (W.55).  
(2) S.I. 2010/2394 (W.206).

ar gyfer rhai halogion  
mewn bwydydd)”

certain contaminants in  
foodstuffs)”

### Dirymiadau

#### 10. Dirymir y canlynol—

- (a) Rheoliadau Hydrocarbonau Mwynol mewn Bwyd 1966(1);
- (b) Rheoliadau Asid Erwsig mewn Bwyd 1977(2);
- (c) Rheoliadau Asid Erwsig mewn Bwyd (Diwygio) 1982(3); a
- (d) Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2010.

### Revocations

#### 10. The —

- (a) Mineral Hydrocarbons in Food Regulations 1966(1);
- (b) Erucic Acid in Food Regulations 1977(2);
- (c) Erucic Acid in Food (Amendment) Regulations 1982(3); and
- (d) Contaminants in Food (Wales) Regulations 2010,

are revoked.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers

27 Medi 2013

27 September 2013

---

© 2013 Hawlfraint y Goron 2013

---

© Crown copyright 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) O.S. 1966/1073.  
(2) O.S. 1977/691.  
(3) O.S. 1982/264.

---

(1) S.I. 1966/1073.  
(2) S.I. 1977/691.  
(3) S.I. 1982/264.



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 Rhif 2493 (Cy. 242)**

**2013 No. 2493 (W. 242)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd  
(Cymru) 2013


The Contaminants in Food (Wales)  
Regulations 2013

£5.75

W1733/09/13

ON

ISBN 978-0-348-10811-8



9 780348 108118